Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 77

## Gorchymyn Senedd Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Mawrth 2026* |
| *Yn dod i rym* | *17 Mawrth 2026* |

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 77

## The Senedd Cymru (Returning Officers' Accounts) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *9 March 2026* |
| *Coming into force* | *17 March 2026* |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 77

## CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## SENEDD CYMRU

# Gorchymyn Senedd Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2026

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth o ran yr amser y mae cyfrifon i'w cyflwyno at ddiben talu taliadau swyddogion canlyniadau, a'r dull a'r ffurf ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon hynny.

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud o dan erthygl 23 o Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 (O.S. 2025/864) (Cy. 150) ("Gorchymyn 2025"). O dan erthygl 23(1) o Orchymyn 2025 mae gan swyddogion canlyniadau hawlogaeth i adennill taliadau mewn cysylltiad â threuliau yr eir iddynt ar gyfer etholiad i'r Senedd, neu mewn cysylltiad ag etholiad i'r Senedd. O dan erthygl 23(2) o Orchymyn 2025 mae gan swyddogion canlyniadau hawlogaeth i adennill taliadau ar ran gweinyddwyr etholiadol mewn cysylltiad â gwasanaethau a ddarperir ar gyfer cynnal etholiad i'r Senedd, neu mewn cysylltiad â hynny. Rhaid bod wedi mynd i'r ddau fath o daliad o reidrwydd er mwyn cynnal yr etholiad yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae'r taliadau mwyaf sy'n adenilladwy ar gyfer pob etholaeth Senedd wedi eu nodi yng Ngorchymyn Senedd Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2026.

Mae erthygl 23(4)(d) o Orchymyn 2025 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud, drwy Orchymyn, ddarpariaethau o ran yr amser y mae rhaid i swyddogion canlyniadau gyflwyno eu cyfrifon i Weinidogion Cymru er mwyn adennill eu taliadau, a'r dull a'r ffurf ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon hynny.

Mae erthygl 3 yn pennu bod rhaid cyflwyno cyfrif o fewn 6 mis gan ddechrau â'r diwrnod y cynhelir yr etholiad i'r Senedd y mae'r cyfrif yn ymwneud ag ef.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae erthygl 4 yn pennu ffurf y cyfrifon sydd i'w cyflwyno i Weinidogion Cymru, ac yn darparu bod rhaid i'r cyfrif restru ar wahân bob taliad yr eir iddo.

Mae erthygl 5 yn darparu bod rhaid cyflwyno unrhyw gyfrif a gyflwynir o dan y Gorchymyn hwn ynghyd â derbynneb mewn cysylltiad â phob traul yr eir iddi gan swyddog canlyniadau, a thystysgrif. Mae darpariaeth wedi ei gwneud ar gyfer ffurf y geiriau i'w defnyddio yn y dystysgrif.

Mae erthygl 6 yn darparu y caiff swyddog canlyniadau gyflwyno cyfrif i adennill rhai o'r taliadau y mae gan y swyddog canlyniadau hawlogaeth i'w hadennill. Gelwir hyn yn gyfrif anghyflawn. Mae erthygl 6 yn pennu bod rhaid i gyfrif anghyflawn fod mor gyflawn â phosibl ac mae'n nodi'r wybodaeth ychwanegol y mae rhaid ei chyflwyno hefyd i Weinidogion Cymru ochr yn ochr â'r cyfrif anghyflawn.

Mae erthygl 7 yn pennu'r wybodaeth ychwanegol y mae rhaid ei chyflwyno i Weinidogion Cymru pan fydd swyddog canlyniadau yn gofyn am daliadau sy'n fwy na'r cyfansymiau mwyaf a nodir yn erthygl 3 o Orchymyn Senedd Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2026 a cholofn 4 o'r Atodlen iddo.

Dirymwyd y rheoliadau cyfrifon blaenorol, sef Rheoliadau Senedd Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2021 (LlC21-27), yn ddarostyngedig i ddarpariaethau arbed penodol, ar 18 Gorffennaf 2025 gan Orchymyn 2025.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 77

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

# SENEDD CYMRU

## Gorchymyn Senedd Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Mawrth 2026* |
| *Yn dod i rym* | *17 Mawrth 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan erthygl 23(4)(d), (6)(a) ac (11) o Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Senedd Cymru (Cyfrifon Swyddogion Canlyniadau) 2026.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Mawrth 2026.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfrif" ("*account*") yw cyfrif a gyflwynir er mwyn adennill taliadau swyddog canlyniadau ar gyfer etholiad i'r Senedd, neu mewn cysylltiad ag etholiad i'r Senedd, o dan erthygl 23(1) a (2) o Orchymyn 2025;

ystyr "etholaeth Senedd" ("*Senedd constituency*") yw etholaeth fel y'i diffinnir yn rheoliad 4 o Reoliadau Etholaethau Senedd Cymru 2025(**2**) a'r Atodlen iddynt;

ystyr "etholiad i'r Senedd" ("*Senedd election*") yw etholiad i ddychwelyd aelod o'r Senedd ar gyfer un o etholaethau'r Senedd;

ystyr "Gorchymyn 2025" ("*the 2025 Order*") yw Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025;

ystyr "swyddog canlyniadau" ("*returning officer*") yw'r swyddog sydd, yn unol ag erthygl 18(2) o Orchymyn 2025, yn swyddog canlyniadau ar gyfer un o etholaethau'r Senedd.

(**1**) O.S. 2025/864 (Cy. 150).
(**2**) O.S. 2025/709 (Cy. 122).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Cyflwyno cyfrifon i Weinidogion Cymru**

**3.** Rhaid cyflwyno cyfrif i Weinidogion Cymru o fewn y cyfnod o 6 mis gan ddechrau â diwrnod yr etholiad i'r Senedd y mae'r cyfrif yn ymwneud ag ef.

**Ffurf y cyfrifon**

**4.** Rhaid i gyfrif a gyflwynwyd nodi ar wahân bob taliad y mae swyddog canlyniadau yn gwneud hawliad mewn cysylltiad ag ef.

**Y dogfennau sydd i fynd gyda chyfrif**

**5.** Rhaid i'r canlynol fynd gydag unrhyw gyfrif a gyflwynir o dan y Gorchymyn hwn—

(1) derbynneb, neu ddogfen ategol arall, mewn cysylltiad â phob traul yr eir iddi gan y swyddog canlyniadau y mae'r cyfrif yn ymwneud ag ef, a

(2) tystysgrif, wedi ei llofnodi gan y swyddog canlyniadau hwnnw yn y termau a ganlyn—

(a) yn Saesneg—

"I declare that this account, submitted for the purposes of the payment of charges in respect of services necessarily rendered and expenses necessarily incurred for the efficient and effective conduct of this election in the Senedd constituency for which I am responsible, is correct to the best of my knowledge and belief.", neu

(b) yn Gymraeg—

"Yr wyf yn datgan bod y cyfrif hwn, a gyflwynir at ddibenion talu taliadau mewn cysylltiad â gwasanaethau a ddarparwyd o reidrwydd a threuliau yr aed iddynt o reidrwydd er mwyn cynnal yr etholiad hwn yn effeithlon ac yn effeithiol yn yr etholaeth Senedd yr wyf yn gyfrifol amdani, yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.".

**Cyflwyno cyfrifon anghyflawn**

**6.**—(1) Caniateir cyflwyno cyfrif anghyflawn o fewn y cyfnod a bennir yn erthygl 3.

(2) Rhaid i gyfrif anghyflawn—

(a) bod mor gyflawn â phosibl o dan yr amgylchiadau, a

(b) cael ei gyflwyno hefyd gydag—

(i) datganiad bod y cyfrif yn gyfrif anghyflawn,

(ii) datganiad o'r rheswm dros gyflwyno cyfrif anghyflawn, a

(iii) y dyddiad arfaethedig erbyn pryd, yn ddarostyngedig i gytundeb y prif swyddog cyfrifyddu, y bydd y cyfrif cyflawn yn cael ei gyflwyno.

(3) Ni chaiff unrhyw ddyddiad arfaethedig y cyfeirir ato ym mharagraff (2)(b)(iii) fod yn hwyrach na 31 Rhagfyr yn y flwyddyn y mae'r etholiad i'r Senedd y mae'r cyfrif yn ymwneud ag ef yn digwydd.

(4) Mae paragraff (5) yn gymwys—

(a) os nad yw'r prif swyddog cyfrifyddu yn derbyn rhesymau'r swyddog canlyniadau dros gyflwyno'r cyfrif anghyflawn,

(b) os yw'r prif swyddog cyfrifyddu yn ystyried nad yw'r cyfrif a gyflwynwyd o dan yr erthygl hon mor gyflawn â phosibl o dan yr amgylchiadau, neu

(c) os yw'r prif swyddog cyfrifyddu yn ystyried bod y dyddiad arfaethedig y cyfeirir ato ym mharagraff (2)(b)(iii) yn afresymol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(5) Caiff y prif swyddog cyfrifyddu ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog canlyniadau gyflwyno cyfrif cyflawn erbyn dyddiad sy'n gynharach na'r dyddiad a gynigir gan y swyddog canlyniadau.

(6) Yn yr erthygl hon—

ystyr "cyfrif anghyflawn" ("*incomplete account*") yw cyfrif mewn cysylltiad â rhai o'r taliadau y mae gan swyddog canlyniadau hawlogaeth i'w hadennill o dan erthygl 23(1) a (2) o Orchymyn 2025;

mae i "y prif swyddog cyfrifyddu" yr ystyr a roddir i ("the principal accounting officer") yn adran 129(6) a (7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**3**).

**Ceisiadau am daliadau sy'n fwy na'r cyfansymiau mwyaf**

**7.**—(1) Os bydd swyddog canlyniadau yn cyflwyno cyfrifon o dan erthygl 3 ac yn gofyn am dalu taliadau sy'n fwy na'r cyfansymiau mwyaf, rhaid i'r swyddog canlyniadau hefyd gyflwyno'r canlynol i Weinidogion Cymru—

(a) y rhesymau dros y cais am daliadau ychwanegol, a

(b) cofnod manwl o'r taliadau sy'n fwy na'r cyfansymiau mwyaf.

(2) Pan fo talu taliadau sy'n fwy na'r cyfansymiau mwyaf wedi ei awdurdodi, rhaid i'r swyddog canlyniadau gyflwyno i Weinidogion Cymru gyfrif cyflawn o fewn y cyfnod o 4 mis gan ddechrau â diwrnod yr etholiad i'r Senedd y mae'r cyfrif yn ymwneud ag ef.

(3) Yn yr erthygl hon, ystyr "cyfansymiau mwyaf" yw'r cyfansymiau mwyaf mewn cysylltiad â phob etholaeth Senedd, fel y'u nodir yn erthygl 3 o Orchymyn Senedd Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2026(**4**) a cholofn 4 o'r tabl yn yr Atodlen iddo.

*Jayne Bryant*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
9 Mawrth 2026

(**3**) 2006 p. 32. Mae diwygiadau i adran 129(6) a (7) nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.
(**4**) O.S.C. 2026/76

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 77

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

# SENEDD CYMRU

# The Senedd Cymru (Returning Officers' Accounts) Order 2026

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Order)*

This Order makes provision as to the time when, and the manner and form in which, accounts are to be submitted for the purpose of the payment of returning officers' charges.

This Order is made under article 23 of the Senedd Cymru (Representation of the People) Order 2025 (S.I. 2025/864) (W. 150) ("2025 Order"). Under article 23(1) of the 2025 Order returning officers are entitled to recover charges in respect of expenses incurred for, or in connection with, a Senedd election. Under article 23(2) of the 2025 Order returning officers are entitled to recover charges on behalf of electoral administrators in respect of services rendered for, or in connection with, a Senedd election. Both types of charge must be necessarily incurred for the efficient and effective conduct of the election.

The maximum charges recoverable for each Senedd constituency are set out in the Senedd Cymru (Returning Officers' Charges) Order 2026.

Article 23(4)(d) of the 2025 Order places a duty on the Welsh Ministers to make, by Order, provisions as to the time when, and the manner and form in which, returning officers must submit their accounts to the Welsh Ministers to recover their charges.

Article 3 specifies that an account must be submitted within 6 months beginning with the day on which the Senedd election to which the account relates is held.

Article 4 specifies the form of accounts to be submitted to the Welsh Ministers, and provides that the account must separately list each charge incurred.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Article 5 provides that any account submitted under this Order must be submitted together with a receipt in respect of each expense incurred by a returning officer, and a certificate. Provision is made for the form of words to be used in the certificate.

Article 6 provides that a returning officer may submit an account to recover some of the charges that the returning officer is entitled to recover. This is known as an incomplete account. Article 6 specifies that an incomplete account must be as complete as possible and sets out the additional information that must also be submitted to the Welsh Ministers alongside the incomplete account.

Article 7 specifies the additional information that must be submitted to the Welsh Ministers when a returning officer is requesting charges in excess of the maximum amounts set out in article 3 of, and column 4 of the Schedule to, the Senedd Cymru (Returning Officers' Charges) Order 2026.

The previous accounts regulations, the Senedd Cymru (Returning Officers' Accounts) Regulations 2021 (WG21-27), were revoked, subject to certain savings provisions, on 18 July 2025 by the 2025 Order.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 77

## REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## SENEDD CYMRU

# The Senedd Cymru (Returning Officers' Accounts) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *9 March 2026* |
| *Coming into force* | *17 March 2026* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by article 23(4)(d), (6)(a) and (11) of the Senedd Cymru (Representation of the People) Order 2025(**1**), make the following Order.

### Title and coming into force

**1.**—(1) The title of this Order is the Senedd Cymru (Returning Officers' Accounts) Order 2026.

(2) This Order comes into force on 17 March 2026.

### Interpretation

**2.** In this Order—

"the 2025 Order" ("*Gorchymyn 2025*") means the Senedd Cymru (Representation of the People) Order 2025;

"account" ("*cyfrif*") means an account submitted for the recovery of a returning officer's charges for, or in connection with, a Senedd election, under article 23(1) and (2) of the 2025 Order;

"returning officer" ("*swyddog canlyniadau*") means the officer who, in accordance with article 18(2) of the 2025 Order, is the returning officer for a Senedd constituency;

"Senedd constituency" ("*etholaeth Senedd*") means a constituency as defined in regulation 4 of, and the Schedule to, the Senedd Cymru Constituency Regulations 2025(**2**);

(**1**) S.I. 2025/864 (W. 150).
(**2**) S.I. 2025/709 (W. 122).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"Senedd election" ("*etholiad i'r Senedd*") means an election to return a Senedd member for a Senedd constituency.

### Submission of accounts to the Welsh Ministers

**3.** An account must be submitted to the Welsh Ministers within the period of 6 months beginning with the day of the Senedd election to which the account relates.

### Form of accounts

**4.** A submitted account must set out separately each charge in respect of which a returning officer is making a claim.

### Documents to accompany an account

**5.** Any account submitted under this Order must be accompanied by—

(1) a receipt, or other supporting document, in respect of each expense incurred by the returning officer to whom the account relates, and

(2) a certificate, signed by that returning officer in the following terms—

(a) in English—

"I declare that this account, submitted for the purposes of the payment of charges in respect of services necessarily rendered and expenses necessarily incurred for the efficient and effective conduct of this election in the Senedd constituency for which I am responsible, is correct to the best of my knowledge and belief.", or

(b) in Welsh—

"Yr wyf yn datgan bod y cyfrif hwn, a gyflwynir at ddibenion talu taliadau mewn cysylltiad â gwasanaethau a ddarparwyd o reidrwydd a threuliau yr aed iddynt o reidrwydd er mwyn cynnal yr etholiad hwn yn effeithlon ac yn effeithiol yn yr etholaeth Senedd yr wyf yn gyfrifol amdani, yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.".

### Submission of incomplete accounts

**6.**—(1) An incomplete account may be submitted within the period specified in article 3.

(2) An incomplete account must—

(a) be as complete as possible in the circumstances, and

(b) also be accompanied by—

(i) a statement that the account is an incomplete account,

(ii) a statement of the reason for the submission of an incomplete account, and

(iii) the proposed date by which, subject to the agreement of the principal accounting officer, the complete account will be submitted.

(3) Any proposed date referred to in paragraph (2)(b)(iii) must be no later than 31 December in the year in which the Senedd election to which the account relates takes place.

(4) Paragraph (5) applies if the principal accounting officer—

(a) does not accept the returning officer's reasons for the submission of the incomplete account,

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) considers that the account submitted under this article is not as complete as possible in the circumstances, or

(c) considers the proposed date referred to in paragraph (2)(b)(iii) to be unreasonable.

(5) The principal accounting officer may require the returning officer to submit a complete account by a date that is earlier than the date proposed by the returning officer.

(6) In this article—

"incomplete account" ("*cyfrif anghyflawn*") means an account in respect of some of the charges which a returning officer is entitled to recover under article 23(1) and (2) of the 2025 Order;

"the principal accounting officer" ("*y prif swyddog cyfrifyddu*") has the meaning given in section 129(6) and (7) of the Government of Wales Act 2006(**3**).

**Requests for charges in excess of maximum amounts**

**7.**—(1) If a returning officer submits accounts under article 3 and requests payment for charges in excess of the maximum amounts, the returning officer must also submit to the Welsh Ministers—

(a) the reasons for the request of additional payments, and

(b) a detailed record of the charges in excess of the maximum amounts.

(2) Where the payment of charges in excess of the maximum amounts has been authorised, the returning officer must submit to the Welsh Ministers a complete account within the period of 4 months beginning with the day of the Senedd election to which the account relates.

(3) In this article, "maximum amounts" means the maximum amounts in respect of each Senedd constituency, as set out in article 3 of, and column 4 of the table in the Schedule to, the Senedd Cymru (Returning Officers' Charges) Order 2026(**4**).

*Jayne Bryant*
Cabinet Secretary for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
9 March 2026

(**3**) 2006 c. 32. There are amendments to section 129(6) and (7) which are not relevant to this Order.
(**4**) W.S.I. 2026/76.